



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2021 Rhif 339 (Cy. 93)

2021 No. 339 (W. 93)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**Rheoliadau Cyd-bwyllgor
Corfforedig y Gogledd (Cymru)
2021**

**The North Wales Corporate Joint
Committee Regulations 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“Deddf 2021”) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i sefydlu cyrff corfforedig a elwir yn gyd-bwyllgorau corfforedig. Sefydliwr y cyrff hyn er mwyn arfer swyddogaethau penodol a bennir yn y rheoliadau sy'n eu sefydlu, mewn perthynas ag ardal sy'n cynnwys ardaloedd yr awdurdodau lleol sy'n ffurfio aelodaeth y cyd-bwyllgor corfforedig (yn ogystal â hynny, pan roddir swyddogaethau mewn perthynas â chynllunio strategol i gyd-bwyllgor corfforedig, caiff awdurdod Parc Cenedlaethol fod yn aelod o'r pwyllgor hefyd).

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu corff corfforedig a elwir yn Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, ac yn pennu'r swyddogaethau a ganlyn fel rhai sy'n arferadwy gan y corff hwn—

(1) y swyddogaeth llesiant economaidd (gweler adran 76 o Ddeddf 2021),

(2) datblygu polisiau trafndiaeth a llunio cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol o dan Ran 2 o Ddeddf Trafndiaeth 2000, a

(3) llunio cynlluniau datblygu strategol (gweler Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004).

Mae 5 Rhan i'r Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 1 yn sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, a'i ardal, ac yn diffinio rhai termau allweddol.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Section 74 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (the “2021 Act”) enables the Welsh Ministers, by regulations, to establish bodies corporate known as corporate joint committees. These bodies are established in order to exercise certain functions specified in the regulations which establish them, in relation to an area comprising the areas of the local authorities which comprise the membership of the corporate joint committee (in addition, where a corporate joint committee is given functions in relation to strategic planning, a National Park authority may also have membership of the committee).

These Regulations establish a body corporate to be known as the North Wales Corporate Joint Committee, and specifies the following functions as being exercisable by this body—

(1) the economic well-being function (see section 76 of the 2021 Act),

(2) developing transport policies and preparing regional transport plans under Part 2 of the Transport Act 2000, and

(3) the preparation of strategic development plans (see Part 6 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004).

There are 5 Parts to these Regulations.

Part 1 establishes the North Wales Corporate Joint Committee, and its area and defines some key terms.

Mae Rhan 2 yn cyflwyno'r Atodlen i'r Rheoliadau. Mae'r Atodlen hon yn cynnwys trefniadau cyfansoddiadol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, gan gynnwys trefniadau ynghylch cynnal a chadeirio cyfarfodydd, pleidleisio ar benderfyniadau, sefydlu is-bwyllgorau a staffio.

Mae Rhan 3 yn nodi aelodaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Yn unol â'r Rhan hon, bydd y corff wedi ei ffurfio o 6 aelod cyngor, un ar gyfer pob awdurdod lleol yn y gogledd, ac aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, nad oes ganddo ond hawl i bleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â llunio cynlluniau datblygu strategol. Caiff y Pwyllgor gyfethol personau eraill (a elwir yn "cyfranogwyr cyfetholedig") i gyfranogi ym musnes y Pwyllgor a chaiff roi hawliau pleidleisio i gyfranogwyr cyfetholedig.

Mae Rhan 4 yn pennu y caniateir arfer y 3 swyddogaeth a grybwyllir uchod gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac y caiff y Pwyllgor wneud pethau eraill i hwyluso arfer y swyddogaethau hynny neu bethau sy'n gysylltiedig ag arfer y swyddogaethau hynny neu'n ffafriol iddynt.

Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaeth ynghylch sut y mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd i gyfrifo ei gyllideb a sut y mae i'w ariannu.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Part 2 introduces the Schedule to the Regulations. This Schedule contains the constitutional arrangements for the North Wales Corporate Joint Committee, including arrangements about holding and chairing meetings, voting on decisions, establishing sub-committees and staffing.

Part 3 sets out the membership of the North Wales Corporate Joint Committee. In accordance with this Part, the body will comprise 6 council members, one for each local authority in the north of Wales, and a member from the Snowdonia National Park Authority who is only permitted to vote on matters relating to the preparation of strategic development plans. The Committee may co-opt other persons to participate in the business of the Committee (known as "co-opted participants") and may give co-opted participants voting rights.

Part 4 specifies that the 3 functions mentioned above may be exercised by the North Wales Corporate Joint Committee and that the Committee may do other things to facilitate the exercise of those functions or things which are incidental or conducive to the exercise of those functions.

Part 5 contains provision about how the North Wales Corporate Joint Committee is to calculate its budget and how it is to be funded.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result a regulatory impact assessment has been prepared. A copy can be obtained from the Local Government Strategic Finance Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2021 Rhif 339 (Cy. 93)

2021 No. 339 (W. 93)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**Rheoliadau Cyd-bwyllgor
Corfforedig y Gogledd (Cymru)
2021**

**The North Wales Corporate Joint
Committee Regulations 2021**

Gwnaed 17 Mawrth 2021

Made 17 March 2021

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

*Coming into force in accordance with
regulation 1(2) and (3)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 74, 83 a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(1).

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by sections 74, 83 and 174 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021(1).

Mae gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (sy'n ymwneud ag ymgynghori) wedi eu bodloni.

The requirements of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (relating to consultation) have been satisfied.

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad ganddi yn unol ag adran 174(4) a (5)(i) a (k) o'r Ddeddf honno.

A draft of this instrument has been laid before and approved by a resolution of Senedd Cymru in accordance with section 174(4) and (5)(i) and (k) of that Act

Enwi a dod i rym

Title and coming into force

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021.

1.—(1) The title of these Regulations is the North Wales Corporate Joint Committee Regulations 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio'r darpariaethau a grybwyllir ym mharagraff (3), i rym ar 1 Ebrill 2021.

(2) These Regulations, other than the provisions mentioned in paragraph (3), come into force on 1 April 2021.

(3) Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Mehefin 2022—

(3) The following provisions of these Regulations come into force on 30 June 2022—

- (a) rheoliad 11;
- (b) rheoliad 12;
- (c) rheoliad 13;

- (a) regulation 11;
- (b) regulation 12;
- (c) regulation 13;

- (d) rheoliad 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â swyddogaethau a roddir i Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gan reoliad 11, 12 neu 13.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “aelod Eryri” (“*the Snowdonia member*”) yw'r aelod a benodir o dan reoliad 8;

ystyr “aelod cyngor” (“*council member*”) yw person y cyfeirir ato yn rheoliad 7(1) neu berson a benodir o dan reoliad 7(3);

ystyr “Awdurdod Parc Cenedlaethol” (“*National Park Authority*”) yw awdurdod yng Nghymru a sefydlir o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(1);

ystyr “blwyddyn ariannol” (“*financial year*”) yw—

(a) y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben â 31 Mawrth 2022 (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel “y flwyddyn ariannol gyntaf”);

(b) wedi hynny, cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben â 31 Mawrth;

ystyr “cyngor cyfansoddol” (“*constituent council*”) yw—

(a) cyngor bwrdeistref sirol Conwy;

(b) cyngor sir Ddinbych;

(c) cyngor sir y Fflint;

(d) cyngor Gwynedd;

(e) cyngor sir Ynys Môn;

(f) cyngor bwrdeistref sirol Wrecsam;

mae i “cyfranogwr cyfetholedig” (“*co-opted participant*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 9(3);

ystyr “deddfiad” (“*enactment*”) yw deddfiad pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir;

ystyr “rheolau sefydlog” (“*standing orders*”) yw'r rheolau sefydlog a wneir o dan baragraff 8 o'r Atodlen;

ystyr “swyddogaethau cynllunio strategol” (“*strategic planning functions*”) yw—

(a) swyddogaethau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004(2) (gweler rheoliad 13), a

(b) unrhyw swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag arfer y swyddogaethau hynny neu'n ffafriol iddynt.

- (d) regulation 15 in so far as it relates to functions conferred on the North Wales Corporate Joint Committee by regulation 11, 12 or 13.

Interpretation

2. In these Regulations—

“constituent council” (“*cyngor cyfansoddiadol*”) means—

(a) Conwy county borough council;

(b) Denbighshire county council;

(c) Flintshire county borough council;

(d) Gwynedd council;

(e) Isle of Anglesey county council;

(f) Wrexham county borough council;

“co-opted participant” (“*cyfranogwr cyfetholedig*”) has the meaning given by regulation 9(3);

“council member” (“*aelod cyngor*”) means a person referred to in regulation 7(1) or a person appointed under regulation 7(3);

“enactment” (“*deddfiad*”) means an enactment whenever enacted or made;

“financial year” means—

(a) the period of 12 months ending with 31 March 2022 (referred to in these Regulations as “the first financial year”);

(b) subsequently, a period of 12 months ending with 31 March;

“National Park Authority” (“*Awdurdod Parc Cenedlaethol*”) means an authority in Wales established under section 63 of the Environment Act 1995(1);

“the Snowdonia member” (“*aelod Eryri*”) means the member appointed under regulation 8;

“standing orders” (“*rheolau sefydlog*”) means the standing orders made under paragraph 8 of the Schedule;

“strategic planning functions” (“*swyddogaethau cynllunio strategol*”) means—

(a) the functions of the North Wales Corporate Joint Committee under Part 6 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004(2) (see regulation 13), and

(b) any functions incidental or conducive to the exercise of those functions.

(1) 1995 p. 25.

(2) 2004 p. 5. Mae Rhan 6 wedi ei diwygio gan Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1).

(1) 1995 c.25.

(2) 2004 c.5. Part 6 has been amended by Schedule 9 to the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (asc 1).

RHAN 1

Sefydlu ac ardal

Sefydlu

3.—(1) Mae corff corfforedig o'r enw Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ("CBC y Gogledd") wedi ei sefydlu.

(2) Mae gan CBC y Gogledd y swyddogaethau—

- (a) a roddir iddo gan y Rheoliadau hyn, a
- (b) a roddir iddo, a osodir arno neu a ddirprwyir iddo, gan unrhyw ddeddfiad arall.

(3) Mae'r swyddogaethau a roddir i CBC y Gogledd gan y Rheoliadau hyn yn arferadwy mewn perthynas â'i ardal.

Ardal

4. Mae ardal CBC y Gogledd wedi ei ffurfio o ardaloedd y cynghorau cyfansoddol.

RHAN 2

Cyfansoddiad

Cyfansoddiad

5. Mae'r Atodlen yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad CBC y Gogledd.

RHAN 3

Aelodaeth

Aelodaeth

6.—(1) Aelodau CBC y Gogledd yw—

- (a) y 6 aelod cyngor, a
- (b) aelod Eryri.

(2) Mae gan yr aelodau hawl i bleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fater sydd i'w benderfynu gan CBC y Gogledd.

(3) Ond nid yw paragraff (2) ond yn gymwys i aelod Eryri i'r graddau y mae'r mater sydd i'w benderfynu yn ymwneud â swyddogaethau cynllunio strategol.

(4) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn, ac mewn unrhyw ddeddfiad arall, at aelod o CBC y Gogledd (sut bynnag y'u mynegir) yn cynnwys aelod Eryri i'r graddau a ddisgrifir yn mharagraff (3), oni bai bod—

- (a) darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb, neu
- (b) y cyd-destun yn mynnu fel arall.

PART 1

Establishment and area

Establishment

3.—(1) There is established a body corporate to be known as the North Wales Corporate Joint Committee ("the North Wales CJC").

(2) The North Wales CJC has the functions—

- (a) conferred on it by these Regulations, and
- (b) conferred or imposed on it, or delegated to it, by any other enactment.

(3) Functions conferred on the North Wales CJC by these Regulations are exercisable in relation to its area.

Area

4. The North Wales CJC's area comprises the areas of the constituent councils.

PART 2

Constitution

Constitution

5. The Schedule makes provision about the constitution of the North Wales CJC.

PART 3

Membership

Membership

6.—(1) The members of the North Wales CJC are—

- (a) the 6 council members, and
- (b) the Snowdonia member.

(2) The members are entitled to vote in relation to any matter to be decided by the North Wales CJC.

(3) But paragraph (2) applies to the Snowdonia member only to the extent that the matter to be decided is about strategic planning functions.

(4) References in these Regulations, and in any other enactment, to a member of the North Wales CJC (however expressed) include the Snowdonia member to the extent described in paragraph (3), unless—

- (a) express provision is made to the contrary, or
- (b) the context requires otherwise.

Aelodau cyngor

7.—(1) Yn achos pob cyngor cyfansoddol—

- (a) yr arweinydd gweithrediaeth, pan fo'r cyngor cyfansoddol yn gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet;
- (b) y maer etholedig, pan fo'r cyngor cyfansoddol yn gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet,

yw'r aelod cyngor o CBC y Gogledd.

(2) Pan fo aelod cyngor yn anabl i gyflawni ei swyddogaethau am unrhyw gyfnod, rhaid i'r cyngor cyfansoddol y mae'n aelod ohono benodi aelod arall o'i weithrediaeth i gyflawni'r swyddogaethau hynny ar ran yr aelod cyngor am y cyfnod hwnnw.

(3) Pan fo swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) yn wag o fewn cyngor cyfansoddol, rhaid i'r cyngor cyfansoddol benodi aelod arall o'i weithrediaeth yn aelod cyngor o CBC y Gogledd hyd nes y bydd y swydd wag wedi ei llenwi.

Aelod Eryri

8.—(1) Rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (“yr Awdurdod”) benodi deiliad swydd a grybwyllir ym mharagraff (2) yn aelod o CBC y Gogledd (“aelod Eryri”).

(2) Y deiliaid swyddi sy'n gymwys i fod yn aelod Eryri yw—

- (a) cadeirydd yr Awdurdod,
- (b) dirprwy gadeirydd yr Awdurdod, neu
- (c) cadeirydd unrhyw bwyllgor sy'n gyfrifol am faterion cynllunio a all gael ei sefydlu gan yr Awdurdod.

(3) Pan fo aelod Eryri yn anabl i gyflawni ei swyddogaethau am unrhyw gyfnod, rhaid i'r Awdurdod benodi un o'r deiliaid swyddi eraill a grybwyllir ym mharagraff (2) i gyflawni'r swyddogaethau hynny ar ran aelod Eryri am y cyfnod hwnnw.

Cyfranogwyr cyfetholedig

9.—(1) Caiff yr aelodau o CBC y Gogledd gyfethol y personau hynny y maent yn meddwl eu bod yn briodol—

- (a) yn aelodau o un o gyd-bwyllgorau CBC y Gogledd;
- (b) i gyfranogi yng ngweithgareddau eraill CBC y Gogledd.

Council members

7.—(1) In the case of each constituent council—

- (a) the executive leader, where the constituent council operates a leader and cabinet executive;
- (b) the elected mayor, where the constituent council operates a mayor and cabinet executive,

is the council member of the North Wales CJC.

(2) Where a council member is, for any period, unable to discharge their functions, the constituent council of which they are a member must appoint another member of its executive to discharge those functions on behalf of the council member for that period.

(3) Where a constituent council has a vacancy in an office referred to in paragraph (1), the constituent council must appoint another member of its executive as the council member of the North Wales CJC until such time as the vacancy is filled.

Snowdonia member

8.—(1) The Snowdonia National Park Authority (“the Authority”) must appoint an office-holder mentioned in paragraph (2) as a member of the North Wales CJC (“the Snowdonia member”).

(2) The office-holders who are eligible to be the Snowdonia member are—

- (a) the chairman of the Authority,
- (b) the deputy chairman of the Authority, or
- (c) the chairperson of a committee with responsibility for planning matters as may be established by the Authority.

(3) Where the Snowdonia member is, for any period, unable to discharge their functions, the Authority must appoint one of the other office-holders mentioned in paragraph (2) to discharge those functions on behalf of the Snowdonia member for that period.

Co-opted participants

9.—(1) The members of the North Wales CJC may co-opt such persons as they think appropriate—

- (a) as members of a sub-committee of the North Wales CJC;
- (b) to participate in other activities of the North Wales CJC.

(2) Pan fo person yn cael ei gyfethol o dan baragraff (1) rhaid i'r aelodau roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person am y cyfetholiad.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, cyfeirir at berson a gyfetholir o dan baragraff (1) fel "cyfranogwr cyfetholedig".

(4) Nid oes gan gyfranogwr cyfetholedig ond hawl i bleidleisio mewn perthynas ag unrhyw faterion a bennir gan yr aelodau yn yr hysbysiad a roddir o dan baragraff (2).

(5) Cyfetholir cyfranogwr cyfetholedig—

- (a) am gyfnod a bennir gan yr aelodau yn yr hysbysiad o roddir o dan baragraff (2),
- (b) hyd nes y terfynir y cyfetholiad gan yr aelodau drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r cyfranogwr cyfetholedig, neu
- (c) hyd nes y bo'r cyfranogwr cyfetholedig yn ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i CBC y Gogledd.

(6) Pan fo cyfnod wedi ei bennu o dan baragraff (5)(a), caniateir er hynny i'r aelodau derfynu cyfetholiad y cyfranogwr cyfetholedig cyn diwedd y cyfnod drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r cyfranogwr cyfetholedig.

(7) Caiff yr aelodau o CBC y Gogledd ddiwygio cyfetholiad o dan baragraff (1) drwy roi hysbysiad ysgrifenedig pellach i'r cyfranogwr cyfetholedig.

(8) Caiff hysbysiad pellach gynnwys diwygiadau i—

- (a) unrhyw hawl i bleidleisio a bennir o dan baragraff (4);
- (b) unrhyw gyfnod a bennir o dan baragraff (5)(a).

Rhannu swydd

10. Pan fo swydd y cyfeirir ati yn—

- (a) rheoliad 7(1), neu
- (b) rheoliad 8(2),

yn cael ei rhannu gan 2 berson neu ragor, mae'r personau hynny i'w trin fel pe baent yn 1 person at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(2) Where a person is co-opted under paragraph (1), the members must give a written notice of the co-option to the person.

(3) In these Regulations, a person co-opted under paragraph (1) is referred to as a "co-opted participant".

(4) A co-opted participant is entitled to vote in relation only to such matters as the members may specify in the notice given under paragraph (2).

(5) A co-opted participant is co-opted—

- (a) for a period specified by the members in the notice given under paragraph (2),
- (b) until the co-option is terminated by the members by giving written notice to the co-opted participant, or
- (c) until the co-opted participant resigns by giving written notice to the North Wales CJC.

(6) Where a period is specified under paragraph (5)(a), the co-opted participant's co-option may nevertheless be terminated by the members before the end of the period by giving written notice to the co-opted participant.

(7) The members of the North Wales CJC may revise a co-option under paragraph (1) by giving a further written notice to the co-opted participant.

(8) A further notice may include revisions to—

- (a) any entitlement to vote specified under paragraph (4);
- (b) any period specified under paragraph (5)(a).

Job sharing

10. Where an office referred to in—

- (a) regulation 7(1), or
- (b) regulation 8(2),

is shared by 2 or more persons, those persons are to be treated as if they were 1 person for the purposes of these Regulations.

RHAN 4

Swyddogaethau

PART 4

Functions

Llesiant economaidd

11. Rhoddir y swyddogaeth llesiant economaidd i CBC y Gogledd (gweler adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

Trosglwyddo etc. y swyddogaeth o ddatblygu polisiau trafndiaeth

12.—(1) Mae'r swyddogaeth o ddatblygu polisiau o dan adran 108(1)(a) a (2A)(a) o Ran 2 o Ddeddf Trafndiaeth 2000(1), mewn cysylltiad ag ardal pob cyngor cyfansoddol, i'w harfer gan CBC y Gogledd, ac nid gan y cyngor cyfansoddol.

(2) Mae Rhan 2 o Ddeddf Trafndiaeth 2000 yn gymwys mewn perthynas â CBC y Gogledd a'i gynghorau cyfansoddol yn ddarostyngedig i'r addasiadau yn yr Atodlen i Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafndiaeth) (Cymru) 2021(2).

Swyddogaethau cynllunio strategol

13. Mae gan CBC y Gogledd y swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol (ac yn unol â hynny mae Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gymwys i CBC y Gogledd (gweler yn enwedig adrannau 60K i 60N o'r Ddeddf honno)).

Is-bwerau

14.—(1) Caniateir i CBC y Gogledd wneud unrhyw beth—

- (a) i hwyluso, neu
- (b) sy'n gysylltiedig â, neu'n ffafriol i,

arfer ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw ddeddfiad arall.

(2) Mae'r pethau y caniateir eu gwneud o dan baragraff (1) yn cynnwys—

- (a) mynd i wariant;
- (b) codi ffioedd;
- (c) caffael neu waredu eiddo neu hawliau.

Economic well-being

11. The economic well-being function is granted to the North Wales CJC (see section 76 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021).

Transfer etc. of function of developing transport policies

12.—(1) The function of developing policies under section 108(1)(a) and (2A)(a) of Part 2 of the Transport Act 2000(1) is, in respect of the area of each constituent council, to be exercised by the North Wales CJC, and not by the constituent council.

(2) Part 2 of the Transport Act 2000 applies in relation to the North Wales CJC and its constituent councils subject to the modifications in the Schedule to the Corporate Joint Committees (Transport Functions) (Wales) Regulations 2021(2).

Strategic planning functions

13. The North Wales CJC has the function of preparing a strategic development plan (and accordingly Part 6 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 applies to the North Wales CJC (see in particular sections 60K to 60N of that Act)).

Subsidiary powers

14.—(1) The North Wales CJC may do anything—

- (a) to facilitate, or
- (b) which is incidental or conducive to,

the exercise of its functions under these Regulations or any other enactment.

(2) Things which may be done under paragraph (1) include—

- (a) incurring expenditure;
- (b) charging fees;
- (c) acquiring or disposing of property or rights.

(1) 2000 p. 38.

(2) S.I. 2021/328 (Cy. 86).

(1) 2000 c.38.

(2) S.I. 2021/328 (W. 86).

Dirprwyo swyddogaethau

15.—(1) Caiff CBC y Gogledd ddirprwyo swyddogaethau i is-bwyllgor yn ddarostyngedig i—

- (a) paragraff (2);
- (b) unrhyw ddeddfiad arall sy'n cael yr effaith o wahardd dirprwyo o'r fath neu gyfyngu arno.

(2) Ni chaiff CBC y Gogledd ddirprwyo'r swyddogaethau a gynhwysir yn y darpariaethau a ganlyn—

- (a) rheoliad 9 (cyfranogwyr cyfetholedig);
- (b) rheoliad 12(1) (datblygu polisiâu o dan adran 108(1)(a) a (2A)(a) o Ran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000);
- (c) rheoliad 13 (llunio cynllun datblygu strategol);
- (d) rheoliad 16 (cyfrifo'r gyllideb);
- (e) rheoliad 17 (ariannu gofyniad y gyllideb);
- (f) paragraff 2 o'r Atodlen (penodi a chadarnhau cadeirydd ac is-gadeirydd);
- (g) paragraff 7 o'r Atodlen (gweithdrefn bleidleisio wahanol);
- (h) paragraff 8 o'r Atodlen (gwneud, amrywio a dirymu rheolau sefydlog);
- (i) paragraff 15 o'r Atodlen (sefydlu is-bwyllgorau);
- (j) paragraff 16 o'r Atodlen (sefydlu is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio).

RHAN 5

Ariannu

Cyfrifo gofynion cyllideb

16.—(1) Ar gyfer pob blwyddyn ariannol rhaid i CBC y Gogledd gyfrifo'r symiau a ddisgrifir ym mharagraff (2) sydd i'w priodoli i—

- (a) ei swyddogaethau cynllunio strategol (gan gynnwys cyfran briodol o gostau gweinyddu a gorbenion eraill), a
- (b) ei swyddogaethau eraill.

(2) Y symiau y mae rhaid i'r CBC eu cyfrifo yw—

- (a) y swm y mae'r CBC yn amcangyfrif y bydd yn ei wario mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol wrth arfer ei swyddogaethau (gan gynnwys gwariant ar weinyddu a gorbenion eraill);

Delegation of functions

15.—(1) The North Wales CJC may delegate functions to a sub-committee subject to—

- (a) paragraph (2);
- (b) any other enactment which has the effect of prohibiting or limiting such delegation.

(2) The North Wales CJC may not delegate the functions contained in the following provisions—

- (a) regulation 9 (co-opted participants);
- (b) regulation 12(1) (developing policies under section 108(1)(a) and (2A)(a) of Part 2 of the Transport Act 2000);
- (c) regulation 13 (preparing a strategic development plan);
- (d) regulation 16 (calculation of budget);
- (e) regulation 17 (funding of budget requirement);
- (f) paragraph 2 of the Schedule (appointment and confirmation of chairperson and vice-chairperson);
- (g) paragraph 7 of the Schedule (alternative voting procedure);
- (h) paragraph 8 of the Schedule (making, varying and revoking standing orders);
- (i) paragraph 15 of the Schedule (establishing sub-committees);
- (j) paragraph 16 of the Schedule (establishing a governance and audit sub-committee).

PART 5

Funding

Calculation of budget requirements

16.—(1) For each financial year the North Wales CJC must calculate the amounts described in paragraph (2) attributable to—

- (a) its strategic planning functions (including an appropriate proportion of administration costs and other overheads), and
- (b) its other functions.

(2) The amounts that the CJC must calculate are—

- (a) the amount which the CJC estimates it will spend in respect of the financial year in the exercise of its functions (including spending on administration and other overheads);

- (b) y swm y mae'r CBC yn ystyried ei fod yn briodol ei godi ar gyfer cronfa ariannol wrth gefn mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol;
- (c) y swm y mae'r CBC yn ystyried ei fod yn briodol ei gadw fel cronfa wrth gefn i dalu am y gwariant y mae'n ystyried yr eir iddo mewn cysylltiad â blynyddoedd ariannol i ddod;
- (d) unrhyw swm y mae'r CBC yn ystyried ei fod yn angenrheidiol i dalu unrhyw rwymedigaethau sydd heb eu talu mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn ariannol gynharach.

(3) Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, rhaid i CBC y Gogledd hefyd gyfrifo cyfanswm cyfanredol unrhyw symiau y mae'n amcangyfrif y bydd yn eu cael o ffynonellau eraill ac eithrio'r cynghorau cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sydd i'w priodoli i—

- (a) ei swyddogaethau cynllunio strategol, a
- (b) ei swyddogaethau eraill.

(4) Pan fo cyfanswm y symiau a gyfrifir ar gyfer blwyddyn ariannol o dan baragraff (1)(a) yn fwy na'r swm a gyfrifir ar gyfer y flwyddyn honno o dan baragraff (3)(a), y swm ychwanegol hwnnw yw gofyniad cyllideb cynllunio strategol CBC y Gogledd ar gyfer y flwyddyn ariannol.

(5) Pan fo cyfanswm y symiau a gyfrifir ar gyfer blwyddyn ariannol o dan baragraff (1)(b) yn fwy na'r swm a gyfrifir ar gyfer y flwyddyn honno o dan baragraff (3)(b), y swm ychwanegol hwnnw yw gofyniad cyllideb cyffredinol CBC y Gogledd ar gyfer y flwyddyn ariannol.

(6) Rhaid i CBC y Gogledd —

- (a) cynnal y cyfrifiadau o dan baragraffau (1) a (3), a
- (b) cytuno ar y cyfrifiadau hynny mewn cyfarfod,

yn ddim hwyrach na 31 Ionawr ym mhob blwyddyn ariannol flaenorol.

(7) Mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol gyntaf, mae paragraff (6) yn gymwys fel pe bai "31 Ionawr 2022" wedi ei roi yn lle "31 Ionawr ym mhob blwyddyn ariannol flaenorol".

(8) Caiff CBC y Gogledd ddiwygio'r cyfrifiadau a gynhelir o dan baragraffau (1) a (3) ar unrhyw adeg cyn diwedd y flwyddyn ariannol y maent yn ymwneud â hi a chaniateir diwygio gofyniad cyllideb cyffredinol, neu ofyniad cyllideb cynllunio strategol, CBC y Gogledd o ganlyniad i hynny.

(9) Rhaid cytuno ar unrhyw gyfrifiadau diwygiedig mewn cyfarfod o CBC y Gogledd.

- (b) the amount which the CJC considers appropriate to raise for contingencies arising in respect of the financial year;
- (c) the amount which the CJC considers appropriate to be held as a reserve to meet expenditure it considers will be incurred in respect of future financial years;
- (d) any amount which the CJC considers is necessary to meet liabilities outstanding in respect of any earlier financial year.

(3) For each financial year, the North Wales CJC must also calculate the aggregate of any amounts it estimates it will receive from sources other than the constituent councils and the Snowdonia National Park Authority attributable to—

- (a) its strategic planning functions, and
- (b) its other functions.

(4) Where the sum of the amounts calculated for a financial year under paragraph (1)(a) exceeds the amount calculated for that year under paragraph (3)(a), the amount of excess is the North Wales CJC's strategic planning budget requirement for the financial year.

(5) Where the sum of the amounts calculated for a financial year under paragraph (1)(b) exceeds the amount calculated for that year under paragraph (3)(b), the amount of excess is the North Wales CJC's general budget requirement for the financial year.

(6) The North Wales CJC must—

- (a) carry out the calculations under paragraphs (1) and (3), and
- (b) agree those calculations at a meeting,

no later than 31 January in each preceding financial year.

(7) In relation to the first financial year, paragraph (6) applies as if, for "31 January in each preceding financial year" there were substituted "31 January 2022".

(8) The North Wales CJC may revise the calculations carried out under paragraphs (1) and (3) at any time before the end of the financial year to which they relate and the North Wales CJC's general budget requirement, or strategic planning budget requirement, may consequently be revised.

(9) Any revised calculations must be agreed at a meeting of the North Wales CJC.

Ariannu gofyniad cyllideb

17.—(1) Rhaid i ofyniad cyllideb cyffredinol CBC y Gogledd gael ei dalu i CBC y Gogledd gan y cynghorau cyfansoddol, ac mae'r gyfran o'r swm hwnnw sy'n daladwy gan bob cyngor cyfansoddol i'w phennu drwy gytundeb unfrydol yr aelodau cyngor.

(2) Rhaid i ofyniad cyllideb cynllunio strategol CBC y Gogledd gael ei dalu i CBC y Gogledd gan y cynghorau cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ac mae'r gyfran o'r swm hwnnw sy'n daladwy gan bob cyngor cyfansoddol a chan yr Awdurdod i'w phennu drwy gytundeb unfrydol yr aelodau.

(3) Pan na fo'n bosibl dod i gytundeb o ran y cyfrannau sy'n daladwy o dan baragraff (1) neu (2), caiff Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd bennu'r gyfran sy'n daladwy gan bob cyngor cyfansoddol neu bob cyngor cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

(4) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ofyniad cyllideb cyffredinol, neu ofyniad cyllideb cynllunio strategol, a ddiwygiwyd o dan baragraff (8) o reoliad 16 fel y mae'n gymwys i ofyniad cyllideb a bennwyd yn wreiddiol o dan y rheoliad hwnnw.

Funding of budget requirement

17.—(1) The North Wales CJC's general budget requirement must be paid to the North Wales CJC by the constituent councils, and the proportion of that amount payable by each constituent council is to be determined by the unanimous agreement of the council members.

(2) The North Wales CJC's strategic planning budget requirement must be paid to the North Wales CJC by the constituent councils and the Snowdonia National Park Authority, and the proportion of that amount payable by each constituent council and by the Authority is to be determined by the unanimous agreement of the members.

(3) Where agreement cannot be reached as to the proportions payable under paragraph (1) or (2), the Welsh Ministers may by direction specify the proportion payable by each constituent council or each constituent council and the Snowdonia National Park Authority.

(4) This regulation applies to a general budget requirement, or strategic planning budget requirement, revised under paragraph (8) of regulation 16 as it applies to a budget requirement initially determined under that regulation.

Julie James

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
17 Mawrth 2021

Minister for Housing and Local Government, one of
the Welsh Ministers
17 March 2021

RHAN 1

Gweithdrefn, cyfarfodydd a phleidleisio

Cadeirio cyfarfodydd

1. Rhaid i gyfarfodydd CBC y Gogledd gael eu cadeirio gan—

- (a) y cadeirydd a benodir o dan baragraff 2, neu
- (b) os yw'r cadeirydd yn absennol, yr is-gadeirydd a benodir o dan y paragraff hwnnw.

Penodi cadeirydd ac is-gadeirydd

2.—(1) Yng nghyfarfod cyntaf CBC y Gogledd—

- (a) penodi cadeirydd ac is-gadeirydd fydd y busnes cyntaf a drafodir, a
- (b) rhaid i'r aelod cyngor ar gyfer cyngor bwrdeistref sirol Conwy gadeirio'r cyfarfod hyd nes y penodir y cadeirydd (ac mae'r cadeirydd i gadeirio gweddill y cyfarfod).

(2) Ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol o CBC y Gogledd—

- (a) rhaid cadarnhau bod penodiad y cadeirydd a'r is-gadeirydd yn parhau, neu
- (b) rhaid penodi cadeirydd newydd, is-gadeirydd, neu'r ddau.

(3) Rhaid i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd gael eu penodi o blith yr aelodau cyngor.

(4) Rhaid i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd gael eu penodi, neu eu cadarnhau gan—

- (a) yr aelodau cyngor, a
- (b) unrhyw gyfranogwyr cyfetholedig sydd â hawl i bleidleisio ar y mater.

(5) Caiff person a benodir yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelodau eraill.

(6) Os yw swydd cadeirydd neu is-gadeirydd yn dod yn wag, rhaid penodi i lenwi'r swydd wag yn y cyfarfod cyntaf CBC y Gogledd a gynhelir ar ôl i'r swydd ddod yn wag.

PART 1

Procedure, meetings and voting

Chairing meetings

1. Meetings of the North Wales CJC must be chaired by—

- (a) the chairperson appointed under paragraph 2, or
- (b) if the chairperson is absent, the vice-chairperson appointed under that paragraph.

Appointment of chairperson and vice-chairperson

2.—(1) At the first meeting of the North Wales CJC—

- (a) the appointment of a chairperson and vice-chairperson is to be the first business transacted, and
- (b) the council member for Conwy county borough council must chair the meeting until the chairperson is appointed (and the chairperson is to chair the remainder of the meeting).

(2) At each annual general meeting of the North Wales CJC—

- (a) the continuing appointment of the chairperson and vice-chairperson must be confirmed, or
- (b) a new chairperson, vice-chairperson or both must be appointed.

(3) The chairperson and vice-chairperson must be appointed from among the council members.

(4) The chairperson and vice-chairperson must be appointed, or confirmed by—

- (a) the council members, and
- (b) any co-opted participants entitled to vote on the matter.

(5) A person appointed as chairperson or vice-chairperson may at any time resign that office by notice in writing given to the other members.

(6) If a vacancy arises in the office of chairperson or vice chairperson, an appointment to fill the vacancy must be made at the first meeting of the North Wales CJC held after the vacancy has arisen.

(7) Os yw swydd y cadeirydd yn wag, caniateir i'r is-gadeirydd gyflawni swyddogaethau cadeirydd hyd nes y llenwir y swydd wag.

(8) Er gwaethaf paragraff 1, pan fo swyddi'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn wag ar yr un pryd, rhaid i'r cyfarfod y cyfeirir ato yn is-baragraff (6) gael ei gadeirio, hyd nes y llenwir un o'r swyddi gwag, gan aelod cyngor a bennir gan gyngor bwrdeistref sirol Conwy.

Cyfarfodydd cyffredinol blynyddol

3. Rhaid i CBC y Gogledd o gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol ym mhob blwyddyn ariannol ar ddyddiad a bennir gan y CBC.

Cyfarfodydd eraill

4.—(1) Caiff CBC y Gogledd gynnal cyfarfodydd eraill ar ddyddiadau a bennir yn y rheolau sefydlog.

(2) Caniateir i gyfarfod eithriadol o CBC y Gogledd gael ei alw ar unrhyw adeg gan unrhyw berson sydd â hawl i bleidleisio ar fater sydd i'w benderfynu yn y cyfarfod hwnnw.

Cworwm

5. Nid oes unrhyw fusnes i'w drafod mewn perthynas â mater sydd i'w benderfynu mewn cyfarfod o CBC y Gogledd onid yw—

- (a) yn achos mater sydd i'w benderfynu o dan—
 - (i) rheoliad 17, neu
 - (ii) paragraff 7 o'r Atodlen hon,yr holl bersonau sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad yn bresennol, a
- (b) mewn unrhyw achos arall, dim llai na 70% o'r personau sydd â hawl i bleidleisio yn bresennol.

Y weithdrefn bleidleisio

6.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (3) o'r paragraff hwn a pharagraff 7 o'r Atodlen hon, mewn perthynas ag unrhyw fater sydd i'w benderfynu mewn cyfarfod o CBC y Gogledd—

- (a) ni chaiff nifer y cyfranogwyr cyfetholedig sydd â hawl i bleidleisio fod yn fwy na nifer yr aelodau sydd â hawl i bleidleisio,
- (b) un bleidlais sydd gan bob person sydd â hawl i bleidleisio,
- (c) mae'r mater i'w benderfynu drwy fwyafrif syml, a

(7) If the office of chairperson is vacant, the vice-chairperson may carry out the functions of chairperson until the vacancy is filled.

(8) Despite paragraph 1, where the offices of both chairperson and vice-chairperson are simultaneously vacant, the meeting referred to in sub-paragraph (6) must be chaired, until one of the vacancies is filled, by the council member for Conwy county borough council.

Annual general meetings

3. The North Wales CJC must hold an annual general meeting in each financial year on a date determined by the CJC.

Other meetings

4.—(1) The North Wales CJC may hold other meetings on dates specified in the standing orders.

(2) An extraordinary meeting of the North Wales CJC may be called at any time by any person entitled to vote on a matter to be decided at that meeting.

Quorum

5. No business is to be transacted in relation to a matter to be decided at a meeting of the North Wales CJC unless—

- (a) in the case of a matter to be decided under—
 - (i) regulation 17, or
 - (ii) paragraph 7 of this Schedule,all of the persons entitled to vote on the decision are present, and
- (b) in any other case, no fewer than 70% of the persons entitled to vote are present.

Voting procedure

6.—(1) Subject to sub-paragraphs (2) and (3) of this paragraph and paragraph 7 of this Schedule, in relation to any matter to be decided at a meeting of the North Wales CJC—

- (a) the number of co-opted participants entitled to vote may not exceed the number of members entitled to vote,
- (b) each person entitled to vote has one vote,
- (c) the matter, is to be decided by simple majority, and

(d) os yw nifer y pleidleisiau yn gyfartal nid yw'r mater yn cael ei dderbyn.

(2) Yn achos mater sydd i'w benderfynu o dan—

(a) rheoliad 17, neu

(b) paragraff 7 o'r Atodlen hon,

nid yw is-baragraff (1)(c) a (d) yn gymwys.

(3) Pan fo'r mater sydd i'w benderfynu yn ymwneud â swyddogaethau cynllunio strategol, nid yw is-baragraff (1)(d) yn gymwys a'r cadeirydd (neu'r is-gadeirydd os yw'n cadeirio) sydd â'r bleidlais fwrw.

Mabwysiadu gweithdrefn bleidleisio wahanol

7.—(1) Yn ddarostyngedig i ofynion y paragraff hwn, caiff CBC y Gogledd fabwysiadu system bleidleisio wahanol mewn perthynas ag unrhyw fater sydd i'w benderfynu ganddo.

(2) Ond ni chaiff CBC y Gogledd fabwysiadu gweithdrefn wahanol mewn perthynas ag unrhyw fater sydd i'w benderfynu o dan—

(a) rheoliad 17, neu

(b) y paragraff hwn.

(3) Mewn perthynas â gweithdrefn a fabwysiedir o dan y paragraff hwn—

(a) rhaid iddi bennu pa rai o blith y materion sydd i'w benderfynu gan CBC y Gogledd y mae'n gymwys iddynt;

(b) ni chaiff addasu effaith paragraff 6(3).

(4) Rhaid i weithdrefn a fabwysiedir o dan y paragraff hwn gael ei mabwysiadu drwy gytundeb unfrydol—

(a) aelodau CBC y Gogledd, a

(b) unrhyw gyfranogwyr cyfetholedig sydd â hawl i bleidleisio ar fabwysiadu'r weithdrefn.

(5) Rhaid i unrhyw weithdrefn bleidleisio wahanol a fabwysiedir o dan y paragraff hwn gael ei nodi yn y rheolau sefydlog.

Rheolau sefydlog

8.—(1) Rhaid i CBC y Gogledd wneud rheolau sefydlog ar gyfer rheoleiddio ei drafodion a'i fusnes i'r graddau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan y Rheoliadau hyn nac unrhyw ddeddfiad arall.

(2) Caniateir amrywio'r rheolau sefydlog neu caniateir eu dirymu a'u hamnewid.

(d) if a vote is tied the matter is not carried.

(2) In the case of a matter to be decided under—

(a) regulation 17, or

(b) paragraph 7 of this Schedule,

sub-paragraph (1)(c) and (d) does not apply.

(3) Where the matter to be decided relates to strategic planning functions, sub-paragraph (1)(d) does not apply and the chairperson (or if presiding, the vice-chairperson) has the casting vote.

Adoption of alternative voting procedure

7.—(1) Subject to the requirements of this paragraph, the North Wales CJC may adopt an alternative voting procedure in relation to any matter to be decided by it.

(2) But the North Wales CJC may not adopt an alternative procedure in relation to any matter to be decided under—

(a) regulation 17, or

(b) this paragraph.

(3) A procedure adopted under this paragraph—

(a) must specify which of the matters to be decided by the North Wales CJC it applies to;

(b) may not modify the effect of paragraph 6(3).

(4) A procedure adopted under this paragraph must be adopted by the unanimous agreement of—

(a) the members of the North Wales CJC, and

(b) any co-opted participant entitled to vote on adopting the procedure.

(5) Any alternative voting procedure adopted under this paragraph must be set out in the standing orders.

Standing Orders

8.—(1) The North Wales CJC must make standing orders for the regulation of its proceedings and business so far as not regulated by these Regulations or any other enactment.

(2) The standing orders may be varied or may be revoked and replaced.

RHAN 2

Staff

Cyffredinol

9. Caiff CBC y Gogledd wneud unrhyw drefniadau ar gyfer staffio y mae'n ystyried eu bod yn briodol yn ddarostyngedig i—

- (a) darpariaethau'r Rhan hon o'r Atodlen hon, a
- (b) paragraff 2 o Atodlen 1 i Reoliadau Cydbwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021(1).

Telerau ac amodau

10.—(1) Pan fo CBC y Gogledd yn penodi staff o dan baragraff 9, maent i'w penodi o dan delerau ac amodau (gan gynnwys telerau ac amodau o ran taliadau cydnabyddiaeth) sy'n sylweddol debyg i delerau ac amodau swyddogion yn un o'r cynghorau cyfansoddol sy'n ymgymryd â dyletswyddau a bennir yn rhesymol gymharol gan CBC y Gogledd.

(2) Ond nid yw is-baragraff (1) yn atal CBC y Gogledd rhag addasu unrhyw delerau ac amodau os yw hynny'n angenrheidiol yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall.

Staff o awdurdodau eraill

11.—(1) Caniateir i awdurdod Cymreig datganoledig (o fewn yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006(2)) ymrwmo i gytundeb gyda CBC y Gogledd ar gyfer rhoi staff yr awdurdod at ddefnydd CBC y Gogledd at ddibenion arfer ei swyddogaethau, o dan unrhyw delerau a ddarperir gan y cytundeb.

(2) Pan fo aelod o staff awdurdod Cymreig datganoledig yn cael ei roi at ddefnydd CBC y Gogledd yn rhinwedd cytundeb o dan is-baragraff (1), mae'r aelod o staff i'w drin fel aelod o staff CBC y Gogledd at ddibenion—

- (a) y Rheoliadau hyn;
- (b) paragraff 2 o Atodlen 1 i Reoliadau Cydbwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021;

PART 2

Staff

General

9. The North Wales CJC may make such arrangements for staffing as it considers appropriate subject to—

- (a) the provisions of this Part of this Schedule, and
- (b) paragraph 2 of Schedule 1 to the Corporate Joint Committees (General) (Wales) Regulations 2021(1).

Terms and conditions

10.—(1) Where the North Wales CJC appoints staff under paragraph 9, they are to be appointed on terms and conditions (including terms and conditions as to remuneration) substantially similar to those of officers within a constituent council undertaking responsibilities which the North Wales CJC considers to be reasonably comparable.

(2) But sub-paragraph (1) does not prevent the North Wales CJC from modifying such terms and conditions if required by virtue of any enactment or other rule of law.

Staff from other authorities

11.—(1) A devolved Welsh authority (within the meaning given by the Government of Wales Act 2006(2)) may enter into an agreement with the North Wales CJC for the placing of staff of the authority at the disposal of the North Wales CJC for the purposes of exercising its functions, on such terms as may be provided by the agreement.

(2) Where a member of staff of a devolved Welsh authority is placed at the disposal of the North Wales CJC by virtue of an agreement under sub-paragraph (1), the member of staff is to be treated as a member of staff of the North Wales CJC for the purposes of—

- (a) these Regulations;
- (b) paragraph 2 of Schedule 1 to the Corporate Joint Committees (General) (Wales) Regulations 2021;

(1) O.S. 2021/327 (Cy. 85).

(2) 2006 p. 32. Gweler adran 157A ac Atodlen 9A fel y'u mewnosodwyd gan adran 4 o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) ac Atodlen 3 iddi.

(1) S.I. 2021/327 (W. 85).

(2) 2006 c.32. See section 157A and Schedule 9A as inserted by the Wales Act 2017 (c. 4) section 4 and Schedule 3.

- (c) unrhyw ddeddfiad arall sy'n ymwneud â gweinyddu CBC y Gogledd neu ag arfer ei swyddogaethau.

- (c) any other enactment relating to the administration of the North Wales CJC or the exercise of its functions.

Rhoi staff at ddefnydd awdurdodau eraill

12.—(1) Caiff CBC y Gogledd ymrwymo i gytundeb gydag—

- (a) cyd-bwyllgor corfforedig arall (o fewn yr ystyr a roddir gan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021);
- (b) awdurdod Cymreig datganoledig arall (o fewn yr ystyr a roddir i “devolved Welsh authority” yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006),

ar gyfer rhoi staff CBC y Gogledd at ddefnydd y pwyllgor arall neu'r awdurdod arall at ddibenion swyddogaethau'r pwyllgor neu'r awdurdod hwnnw, o dan delerau a ddarperir gan y cytundeb.

(2) Pan fo aelod o staff CBC y Gogledd yn cael ei roi at ddefnydd corff arall yn rhinwedd cytundeb o dan is-baragraff (1)—

- (a) at ddibenion blwydd-daliadau, mae gwasanaeth a ddarperir gan yr aelod o staff yn wasanaeth a ddarperir i CBC y Gogledd, a
- (b) at ddibenion unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â gweinyddu'r awdurdod Cymreig datganoledig arall neu arfer ei swyddogaethau, mae'r aelod o staff i'w drin fel aelod o staff yr awdurdod hwnnw.

Ymgynghori â staff ynghylch cytundebau o dan baragraff 11 neu 12

13. Ni chaniateir ymrwymo i unrhyw gytundeb o dan baragraff 11(1) neu 12(1) oni bai yr ymgynghorir â phob aelod o staff y mae'r cytundeb yn ymwneud â hwy.

Trosglwyddo staff

14. Pan fo aelod o staff a benodir gan CBC y Gogledd wedi ei drosglwyddo i'r CBC o gyngor cyfansoddol, mae darpariaethau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006(1) ac eithrio rheoliadau 4(6) a 10 yn gymwys i'r trosglwyddiad, pa un a yw'n drosglwyddiad perthnasol at ddibenion y rheoliadau hynny ai peidio.

Placing staff at the disposal of other authorities

12.—(1) The North Wales CJC may enter into an agreement with—

- (a) another corporate joint committee (within the meaning given by Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021);
- (b) another devolved Welsh authority (within the meaning given by the Government of Wales Act 2006),

for the placing of staff of the North Wales CJC at the disposal of the other committee or the authority for the purposes of that committee or authority's functions, on such terms as may be provided by the agreement.

(2) Where a member of staff of the North Wales CJC is placed at the disposal of another body by virtue of an agreement under sub-paragraph (1)—

- (a) for superannuation purposes, service rendered by the member of staff is service rendered to the North Wales CJC, and
- (b) for the purposes of any enactment relating to the administration of the other devolved Welsh authority or the exercise of its functions, the member of staff is to be treated as a member of staff of that authority.

Consultation with staff about agreements under paragraph 11 or 12

13. No agreement may be entered into under paragraph 11(1) or 12(1) unless every member of staff to whom it relates has been consulted.

Transfer of staff

14. Where a member of staff appointed by the North Wales CJC has been transferred to the CJC from a constituent council, the provisions of the Transfer of Undertaking (Protection of Employment) Regulations 2006(1) other than regulations 4(6) and 10 apply to the transfer, whether or not it is a relevant transfer for the purposes of those regulations.

(1) O.S. 2006/246.

(1) S.I. 2006/246.

RHAN 3

Is-bwyllgorau

Is-bwyllgorau

15.—(1) Caiff CBC y Gogledd —

- (a) sefydlu is-bwyllgorau;
- (b) penodi'r canlynol yn aelodau o is-bwyllgor—
 - (i) aelodau o CBC y Gogledd;
 - (ii) cyfranogwyr cyfetholedig (gweler rheoliad 9).

(2) Ni chaiff is-bwyllgor ond arfer y swyddogaethau hynny a ddirprwyir iddo gan CBC y Gogledd (ond gweler rheoliad 15 a pharagraff 16).

(3) Rhaid nodi gweithdrefnau is-bwyllgor, gan gynnwys unrhyw weithdrefnau pleidleisio pan fo hynny'n briodol, yn y rheolau sefydlog.

Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

16.—(1) Rhaid i CBC y Gogledd sefydlu is-bwyllgor (o'r enw yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio) i—

- (a) adolygu materion ariannol CBC y Gogledd a chraffu arnynt;
- (b) llunio adroddiadau a chyflwyno argymhellion mewn perthynas â materion ariannol CBC y Gogledd;
- (c) adolygu ac asesu trefniadau CBC y Gogledd ar gyfer rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol;
- (d) llunio adroddiadau a chyflwyno argymhellion i CBC y Gogledd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;
- (e) goruchwyllo trefniadau archwilio mewnol ac allanol CBC y Gogledd;
- (f) adolygu unrhyw ddatganiadau ariannol a lunnir gan CBC y Gogledd;
- (g) arfer unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan CBC y Gogledd.

(2) Pan fydd yn penodi aelodau o'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio, rhaid i CBC y Gogledd sicrhau—

- (a) bod o leiaf un aelod o'r is-bwyllgor yn berson nad yw'n aelod o gyngor sir, nac o gyngor bwrdeistref sirol, yng Nghymru,
- (b) y cyfansoddir o leiaf ddau draean o'r aelodaeth gan aelodau o'r cynghorau cyfansoddol (ond nid aelodau o weithrediaethau'r cynghorau cyfansoddol), ac
- (c) nad yw unrhyw un o aelodau o'r is-bwyllgor—

PART 3

Sub-committees

Sub-committees

15.—(1) The North Wales CJC may—

- (a) establish sub-committees;
- (b) appoint as members of a sub-committee—
 - (i) members of the North Wales CJC;
 - (ii) co-opted participants (see regulation 9).

(2) A sub-committee may exercise only those functions as are delegated to it by the North Wales CJC (but see regulation 15 and paragraph 16).

(3) The procedures of a sub-committee, including where appropriate any voting procedures, must be set out in the standing orders.

Governance and Audit Sub-Committee

16.—(1) The North Wales CJC must establish a sub-committee (known as the governance and audit sub-committee) to—

- (a) review and scrutinise the North Wales CJC's financial affairs;
- (b) make reports and recommendations in relation to the North Wales CJC's financial affairs;
- (c) review and assess the risk management, internal control and corporate governance arrangements of the North Wales CJC;
- (d) make reports and recommendations to the North Wales CJC on the adequacy and effectiveness of those arrangements;
- (e) oversee the North Wales CJC's internal and external audit arrangements;
- (f) review any financial statements prepared by the North Wales CJC;
- (g) exercise such other functions as the North Wales CJC may specify.

(2) When appointing members of the governance and audit sub-committee, the North Wales CJC must ensure that—

- (a) at least one member of the sub-committee is a person who is not a member of a county council, or county borough council, in Wales,
- (b) at least two-thirds of the membership is constituted by members of the constituent councils (but not members of the constituent councils' executives), and
- (c) none of the members of the sub-committee are—

- (i) yn aelod cyngor,
- (ii) yn gyfranogwr cyfetholedig, nac
- (iii) yn aelod o weithrediaethau'r cyngorau cyfansoddol.

(3) Yn is-baragraff (2), ystyr “cyfranogwr cyfetholedig” yw person a gyfetholir—

- (a) yn aelod o is-bwyllgor ac eithrio'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio, neu
- (b) i gyfranogi yng ngweithgareddau CBC y Gogledd ac eithrio gweithgareddau'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio.

(4) Ni chaiff yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio arfer ei swyddogaethau os yw aelodaeth yr is-bwyllgor yn torri gofynion is-baragraff (2).

(5) Rhaid i'r rheolau sefydlog gynnwys darpariaeth sy'n rheoleiddio dull yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio o arfer ei swyddogaethau.

©©Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

- (i) council members,
- (ii) co-opted participants, or
- (iii) members of the constituent councils' executives.

(3) In sub-paragraph (2), “co-opted participant” means a person co-opted—

- (a) as a member of a sub-committee other than the governance and audit sub-committee, or
- (b) to participate in activities of the North Wales CJC other than the activities of the governance and audit sub-committee.

(4) The governance and audit sub-committee may not exercise its functions if the membership of the sub-committee contravenes the requirements of sub-paragraph (2).

(5) The standing orders must include provision regulating the manner in which the governance and audit sub-committee exercises its functions.

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/339>

ISBN 978-0-348-20790-3



9 780348 207903